Hawdd ei Ddeall




Hydref 2024

# Adnabod fi, Adnabod chi

## Beth rydyn ni wedi ei ddysgu o'n digwyddiadau yng Nghaerdydd, Caerfyrddin a Llandudno ym mis Mehefin 2024

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change**. Mae'r ddogfen yma yn fersiwn hawdd ei ddeall o **'Dylanwadu a Hysbysu Adnabod fi, Adnabod chi Engage: Digwyddiadau gwrando a dysgu'**.

Influencing and Informing Engage To Change | Learning Disability Wales / Anabledd Dysgu Cymru | NCMH National Centre for Mental Health | Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 29**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Ebost:** angela.kenvyn@ldw.org.uk

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**.

# Cynnwys

**Am Engage to Change** .......... 4

**Digwyddiadau Adnabod fi, Adnabod chi** .......... 6

**Beth roedd pobl wedi ei ddweud** .......... 9

Pobl sydd â phrofiad byw o anableddau dysgu neu awtistiaeth .......... 12

Rhieni a gofalwyr .......... 17

Cyflogwyr, comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau .......... 20

**Beth sydd ei angen** .......... 25

**Beth ddylai Senedd Cymru fod yn ei wneud?** .......... 27

**Geiriau anodd** .......... 29

# Am Engage to Change

Roedd **Engage to Change** yn brosiect oedd yn rhedeg am 7 mlynedd yng Nghymru.



Roedd yn rhoi cymorth cyflogaeth i bobl ag anabledd dysgu ac **awtistiaeth**.



Mae **awtistiaeth** yn gyflwr mae rhywun yn cael ei eni ag ef. Mae pawb yn wahanol, ond efallai bydd pobl yn:

- ei chael hi'n anodd siarad â phobl eraill a bod gyda nhw
- gwneud neu feddwl yr un pethau drosodd a throsodd
- teimlo'n anghyfforddus gyda goleuadau llachar neu synau uchel
- poeni am ddigwyddiadau neu leoliadau newydd
- angen mwy o amser i ddeall pethau.



Fe wnaeth y prosiect roi cefnogaeth cyflogaeth i dros 1000 o bobl ifanc.



Cafodd dros 4 o bob 10 o bobl swydd gyflogedig. Mae hyn yn llawer uwch na nifer y bobl ag anabledd dysgu a fyddai fel arfer yn cael swydd.




Mae **Anabledd Dysgu Cymru** yn gweithio gyda'r **Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl** i ddysgu mwy am beth sydd wedi cael ei gyflawni.

Enw'r prosiect yma ydy **Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change**.




Mae hyn hefyd yn meddwl gweithio gyda phobl a sefydliadau eraill. Er enghraifft, Llywodraeth Cymru, cynghorau lleol, byrddau iechyd, ysgolion, colegau, pobl ag anableddau dysgu, **awtistiaeth** a'u teuluoedd.

# Digwyddiadau Adnabod fi, Adnabod chi




Fe wnaethon ni gynnal 3 digwyddiad i siarad am gyflogaeth a phrofiadau pobl.



Roedden nhw yng Nghaerdydd, Caerfyrddin a Llandudno.

**Roedd pob un o'r digwyddiadau'n cynnwys sgyrsiau gan:**



- rheolwr prosiect Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change
- person ifanc oedd wedi cael cefnogaeth gan Engage to Change i gael swydd



- rhiant a
- cyflogwr.

**Fe wnaeth rheolwr y prosiect siarad am:**



- Y gwaith mae Engage to Change wedi ei wneud ers i'r prosiect orffen.



- Yr angen am gymorth gan hyfforddwyr swyddi ym mhob rhaglen gyflogaeth.




- Cydnabod hyfforddiant swyddi fel swydd mae'n rhaid i bobl fod yn gymwys i'w gwneud.

**Fe wnaeth rhieni a phobl ifanc siarad am:**



- Eu profiadau a'r gefnogaeth roedden nhw wedi ei gael.



- Y gwahaniaeth cadarnhaol mae cael swydd yn ei wneud.

**Fe wnaeth y cyflogwyr siarad am:**



- Cefnogi pobl i ddod o hyd i'w sgiliau.



- Y gwahaniaeth mae cyflogi rhywun ag anabledd dysgu yn ei wneud i'r gweithle.



Yn y prynhawn, roedd yna sesiynau grŵp. Yma roedd cwestiynau yn cael eu gofyn i bobl ac oredden nhw'n dweud beth roedden nhw'n feddwl.

Fe fydd yr adroddiad yma nawr yn siarad am beth roedd y grwpiau wedi ei ddweud yn y 3 digwyddiad.



# Beth roedd pobl wedi ei ddweud



Roedd rhai pethau cyffredin yn codi ar draws y grwpiau. Y prif bethau oedd:

**Pwysigrwydd gweithio**



Roedd pob grŵp o bobl yn credu bod cyflogaeth yn bwysig.



Roedden nhw'n dweud ei fod yn gwneud gwahaniaeth i fywydau, annibyniaeth a dewisiadau pobl.



Roedd pobl yn dweud eu bod yn teimlo mwy o gysylltiad â'r gymdeithas.



Roedd cyflogwyr yn dweud ei fod wedi eu helpu nhw. Ac wedi eu helpu nhw i weld pam ei bod yn dda cyflogi pobl ag anableddau dysgu ac **awtistiaeth**.

**Cyfathrebu a hygyrchedd**



Roedd pob grŵp yn meddwl ei bod yn anodd cael gwybod am gyflogaeth a chefnogaeth.



Roedden nhw'n dweud y dylai fod mwy o wybodaeth a chyngor yn yr ysgol a'r coleg.



Rhaid i wybodaeth ysgrifenedig fod yn fwy hygyrch hefyd.

Mae **hygyrch** yn meddwl ei fod wedi'i ysgrifennu mewn ffordd mae'r rhan fwyaf o bobl yn gallu ei ddeall. Er enghraifft, yn hawdd ei ddeall.



Hefyd, rhaid i wybodaeth am gynlluniau cyflogaeth gyrraedd pobl a rhieni.

**Cefnogaeth**



Mae rhywfaint o waith da yn digwydd ar draws Cymru ond nid ym mhob man yng Nghymru.



Doedd dim llawer o bobl yn gwybod am y cynlluniau oedd ar gael iddyn nhw.



Roedd pobl yn teimlo bod dim digon o cefnogaeth uniongyrchol ar gael. Er enghraifft, hyfforddiant swydd.

**Cyllid**




Fe ddylai fod yn haws cael gafael ar gyllid ar gyfer cefnogi cyflogaeth. Hefyd, cyllid tymor hir.



Fe fyddwn ni nawr yn siarad mwy am brif farn pob grŵp, ar draws y 3 digwyddiad.

# Pobl sydd â phrofiad byw o anableddau dysgu neu awtistiaeth

**Rhai pethau ddywedodd pobl oedd:**



- Roedd yn anodd dod o hyd i'r gefnogaeth gywir i ddod o hyd i'r camau nesaf mewn hyfforddiant a gwaith.



- Doedd ganddyn nhw ddim cyngor gyrfa yn yr ysgol.
- Doedd dim digon o gyngor gyrfaoedd.



- Dim gwaith cyflogedig.
- Doedd dim cefnogaeth tan Engage to Change.



- Roedd hyfforddiant swydd yn helpu.

- Fe fyddai angen cefnogaeth arnyn nhw eto gan Engage to Change.

- Mae methu â gyrru a materion trafnidiaeth yn anodd.



- Heb glywed am bethau fel cyllid '**Mynediad i Waith**'.



- Doedd neb wedi gofyn iddyn nhw pa swydd roedden nhw ei eisiau pan oedden nhw'n gadael y coleg.




- Roedd pryderon am weithio a'r effeithiau ar fudd-daliadau.

- Roedd pobl yn siarad am bwysigrwydd gwaith ar gyfer annibyniaeth a phethau eraill.



- Doedd rhai pobl ddim wedi clywed am bethau fel Gwarant Person Ifanc na Thwf Swyddi +.

**Wrth ofyn beth mae cael swydd yn ei feddwl fe ddywedodd pobl:**



- Mae'n meddwl popeth i gael swydd ac ennill arian.



- Mae'n eu gwneud nhw'n hapusach.
- Mae'n rhoi annibyniaeth i bobl.



- Yn hapus am y cyfle i fod yn rhan o'r gymdeithas.

**Wrth ofyn beth fyddai'n helpu, fe ddywedodd pobl:**



- Cefnogaeth i ddysgu am waith.

- Mae cefnogaeth a rhannu tasgau yn rhannau bach yn helpu.



- Mae angen i gyflogwyr ddod i adnabod y person.



- Mwy o gefnogaeth o'r ysgol i'r gwaith.

- Angen gwybod mwy am gyfleoedd.



- Cefnogaeth gan gyflogwyr gydag anghenion pobl. Mae hyn yn cael ei alw yn **addasiadau rhesymol.**



- Gwell gwybodaeth am opsiynau a sut i gael gafael ar gymorth.




- Mae angen help gyda gwneud cais am swyddi a lle i edrych.



- Cefnogaeth un i un yn y gwaith a gyda theithio.



- Mae cael adborth ar waith yn bwysig.

# Rhieni a gofalwyr

**Rhai pethau roedd pobl wedi ei ddweud oedd:**



- Doedd dim digon o gefnogaeth gan Gyrfa Cymru.

- Dim llawer o opsiynau.



- Dim gwybodaeth am gefnogaeth i gael swydd.

- Mae'n rhaid i rieni ymladd am gefnogaeth a dydyn nhw ddim yn cael gwybod am y lle iawn i fynd.



- Dydy pobl ifanc ddim yn cael dweud beth maen nhw'n feddwl am waith.

- Mae'n fwy anodd os ydych chi'n byw mewn ardal wledig neu os nad oes gennych chi y rhyngrwyd.



- Does dim newidiadau yn cael eu gwneud i'r gweithle i gefnogi anghenion pobl. Mae hyn yn cael ei alw yn **addasiadau rhesymol**.



- Mae gweithwyr ag anableddau yn weithwyr da.
- Roedd Engage to Change yn rhoi cefnogaeth.
- Roedd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yn ffordd dda o gyfarfod â rhieni eraill.



- Does dim cefnogaeth pan fydd rhaglen yn dod i ben os nad oes gan y person ifanc swydd.
- Mae cefnogaeth yn gallu bod yn wahanol fathau.



- Yn aml, mae angen i rieni wthio am gefnogaeth.
- Yn aml, mae'n cael ei feddwl nad ydy pobl yn gallu gweithio felly dydyn nhw ddim yn cael cyfle.



- Mae angen i rieni a gofalwyr wybod pa gefnogaeth sydd ar gael.
- Mae hyfforddiant swydd yn ddefnyddiol.

**Beth fyddai'n helpu:**



- Mwy o wybodaeth ac mewn ffordd y mae pobl yn gallu ei ddeall. Hefyd, mewn 1 lle.



- Cefnogaeth ar gyfer teithio.



- Cefnogaeth i waith cyflogedig.



- Mwy o gefnogaeth gan gyflogwyr.



- Cefnogaeth barhaus i hyfforddwyr swyddi.

# Cyflogwyr, comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau



Roedd hyn yn cynnwys staff o Lywodraeth Cymru, cynghorau lleol, byrddau iechyd, sefydliadau sy'n cefnogi pobl, ysgolion, colegau a phrifysgol.

**Rhai pethau roedd pobl wedi ei ddweud oedd:**

- Mae llawer o gefnogaeth yn cael ei ddarparu fel rhan o'r Warant i Bobl Ifanc.

- Mae gwaith wedi'i wneud gydag Engage to Change.




- Mae cefnogaeth a chyllid drwy addysg bellach, Twf Swyddi Cymru a Cymunedau am Waith +.



- Mae Cymru'n Gweithio yn gallu cynnig cyngor a dod o hyd i gymorth, ond fe ddylai fod yn well.



- Yn aml, mae'r cyllid ar gyfer prosiectau yn rhai tymor byr.
- Mae talentau pobl ifanc yn cael eu gwastraffu.



- Dydy llawer o raglenni cyflogaeth ddim yn gwybod sut i gefnogi pobl ag anableddau.



- Fe wnaeth pobl siarad am sefydliadau sy'n darparu cyflogaeth â chymorth ar draws Cymru.
- Llywodraeth Cymru yn cyflogi Hyrwyddwyr Cyflogaeth. Maen nhw yn ymweld â chyflogwyr ac yn eu helpu i feddwl yn wahanol am gyflogi pobl anabl.




- Mae hyrwyddwyr cyflogaeth yn helpu cyflogwyr i ddeall y newidiadau maen nhw'n gallu eu gwneud yn y gweithle.



- Mae pob hyrwyddwr cyflogaeth yn anabl. Ond does neb gydag anabledd dysgu nawr.



- Weithiau, mae rhieni yn gallu bod yn amddiffynol iawn.




- Roedd pobl yn dweud nad ydy'r ganolfan waith yn gweithio. Dydy pobl ddim yn cael digon o gefnogaeth.

- Mae hyrwyddwyr archwiliadau iechyd yn cael eu rhedeg gan bobl ag anableddau dysgu. Mae'n helpu i ddatblygu sgiliau.

**Beth arall ydych chi'n gallu bod yn ei wneud a beth fyddai'n helpu:**



- Fe ddylai pob cyngor gyflogi rhywun sy'n gweithio rhwng pobl ifanc a chyflogwyr.

- Mae angen mwy o waith gydag ysgolion a gwella cyngor gyrfa.



- Mae angen i bobl wybod am **fynediad i waith**. Mae hwn yn gynllun gan yr **Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)**. Mae'n darparu arian i helpu pobl anabl gael gwaith â thâl.



- Mae angen mwy o wybodaeth.
- Mae’n rhaid i wybodaeth fod yn hawdd ei ddeall ac yn hygyrch.



- Darganfod ydy cyflogwyr yn gwybod am raglenni cyflogaeth.



- Gweithio gyda chyflogwyr i ddelio ag anawsterau teithio.



- Mae’n bwysig gofyn i bobl beth maen nhw eisiau.
- Dechrau siarad am gyflogaeth gyda phobl pan mae nhw’n fwy ifanc.



- Mae angen i bobl wybod eu bod nhw yn gallu cael cyfleoedd ac y dylen nhw gael cyfleoedd.



- Mae angen hyfforddiant teithio.

- Cynnwys pobl ifanc o oedran iau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud rhestr o’r gefnogaeth sydd ar gael.



- Newid sut i recriwtio pobl. Er enghraifft, gwneud cais am swydd drwy fideo.



# Beth sydd ei angen

Fe wnaethon ni ofyn i bob grŵp beth oedd ei angen. Roedd llawer o o bethau wedi cael eu rhannu. Dyma rai ohonyn nhw:



- Mae angen cyllid tymor hir.



- Os ydy rhaglen yn gweithio, mae angen ei defnyddio.
- Mae angen i gyflogwyr ddysgu am anableddau cudd. Mae hyn yn meddwl nad ydy pob anabledd yn gallu cael ei weld.



- Modelau rôl gydag anableddau dysgu ar draws pob maes yn siarad am gyflogaeth â chymorth.



- Mae angen gwaith am gyflogaeth a phrofiad gwaith mewn ysgolion.



- Mae help hyfforddwyr swyddi yn gallu helpu gyda phopeth sy’n gysylltiedig â gwaith.



- Fe ddylai fod gwell gwaith gyda chyflogwyr.

- Helpu cyflogwyr i ddeall manteision cyflogi pobl anabl.



- Mae angen rhannu gwybodaeth well am lwybrau at gyflogaeth a chymorth.



- Fe ddylai cyflogwyr mawr, cynghorau lleol a byrddau iechyd gyflogi pobl ag anableddau dysgu ac/ neu **awtistiaeth**.

# Beth ddylai Senedd Cymru fod yn ei wneud?



- Mae angen iddyn nhw wybod beth sydd ei angen, beth sydd ar gael a beth sydd ddim ar gael.


- Ddylai neb gael eu gadael ar ôl.



- Fe ddylid rhoi cymorth i bob person anabl sydd angen help i gael swydd.

- Fe ddylai'r math o gefnogaeth fod beth mae pob unigolyn angen i'w helpu.

- Cadw prosiectau fel Engage to Change i fynd.



- Gwneud yn siŵr bod cyflogaeth â chymorth yn cael ei drin yr un fath ar draws Cymru.



- Fe ddylai fod mwy o gyllid ar gyfer hyfforddiant swyddi.

- Fe ddylai'r cyllid ar gyfer hyfforddiant swyddi fod yno bob amser.



- Gwell gwybodaeth i bawb.
- Rhaid i’r wybodaeth fod yn hawdd ei ddeall ac yn **hygyrch**.



- Gwrando ar bobl ifanc ag anableddau dysgu yn well.
- Cyflogi Hyrwyddwr Pobl Anabl sydd ag anableddau dysgu.



- Sefydlu cynllun i fusnesau ddarparu profiad gwaith i bobl ifanc.



- Sefydlu cynllun gwobrwyo ar gyfer ysgolion, colegau a chyflogwyr sy’n helpu pobl ag anableddau dysgu ac / neu **awtistiaeth** i gael swyddi â thâl.



# Geiriau anodd

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod rhywbeth wedi'i ysgrifennu mewn ffordd mae'r rhan fwyaf o bobl yn gallu ei ddeall. Er enghraifft, yn hawdd ei ddeall.

## Awtistiaeth

Mae awtistiaeth yn gyflwr mae rhywun yn cael ei eni ag ef. Mae pawb yn wahanol, ond efallai y bydd pobl:

- yn eichael hi'n anodd siarad â phobl eraill a bod gyda nhw
- gwneud neu feddwl yr un pethau drosodd a throsodd
- teimlo'n anghyfforddus gyda goleuadau llachar neu synau uchel
- poeni am ddigwyddiadau neu leoliadau newydd
- angen mwy o amser i ddeall pethau.